

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 18 Hydref 2017 am 5pm.

PRESENNOL

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg – Maer

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

L.M.Adams	E.George	S.M.Powell
S.Belzak	D.Grehan	S.Rees
D.R.Bevan	M.Griffiths	S.Rees-Owen
H.Boggis	J.Harries	A.Roberts
J.Bonetto	G.Holmes	J.Rosser
S.A.Bradwick	L.Hooper	G.Stacey
J.Brencher	G.E.Hopkins	E.S.Stephens
A.Calvert	P.Howe	W.Treeby
A.Chapman	G.W.Hughes	L.G.Walker
A.G.Cox	J.James	M.O.Weaver
A.Crimmings	P.Jarman	M.Webber
J.L.Cullwick	G.Jones	E.Webster
G.R.Davies	L.Jones	G.D.G.Williams
J.R.Davies	W.Jones	D.H.Williams
A.Davies-Jones	W.Lewis	J.Williams
M.Diamond	C.Leyshon	C.J.Willis
J.Elliott	D.Macey	R.Yeo
S.Evans	A.Morgan	
S.M.Evans-Fear	S.Morgans	
M.Fidler Jones	M.A.Norris	
M.Forey	D.Owen-Jones	
A.S.Fox	M.J.Powell	
H.Fychan		

Swyddogion oedd yn Bresennol

Mr.C.Bradshaw – Prif Weithredwr
Mr.C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau
Corfforaethol a Rheng Flaen, Mr.G.Isingrini – Cyfarwyddwr
Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant,
Mr.C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol
Mr.C.Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth y
Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

53 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Caple, L.De Vet, K.L.Jones, R.Lewis, K.Morgan, S.Pickering, S.Powderhill R.W.Smith, G.Thomas, R.K.Turner a T.Williams.

54 **DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

55 **CYHOEDDIADAU**

(1) Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Holmes, Cadeirydd Pwyllgor Cofeb Ryfel Llantrisant, wybod i'w gyd-Aelodau am y gwasanaeth cysegru diweddar a gafodd ei gynnal ger Cofeb Ryfel Llantrisant er cof am y meirwon. Rhoddodd y Cynghorydd Holmes ddiolch i'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Cynghorydd A.Crimmings am eu cefnogaeth. Gofynnodd fod ei ddiolchiadau yn cael eu rhannu gyda'r staff a oedd yn rhan o drefnu'r achlysur a rhoddodd wybod i'r Cyngor am y sylwadau cadarnhaol a dderbyniodd gan yr unigolion yn y gwasanaeth, gan gynnwys Arglwydd Raglaw Morgannwg Ganol.

(2) Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber ddiolch i'r Cynghorydd Holmes am ei sylwadau a chanmolodd y gwasanaeth cysegru a gafodd ei gynnal ger Cofeb Ryfel Llantrisant.

Trafododd y Dirprwy Arweinydd yr achlysur codi arian diweddar a symudwyd yn ei flaen gan y Blaid Lafur mewn perthynas â'r grŵp codi arian er budd 'Giving to Pink'. Dywedodd i'r grŵp gael ei sefydlu gan Clare Smart, cyn-glaf cancer y fron yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a oedd ganddi darged o £250,000. Parhaodd y Dirprwy Arweinydd gan ddweud iddi gyflwyno siec o £5,170 i Ms. Smart. Rhoddodd ddiolch i Aelodau o Blaid Lafur am y cyfanswm gwych a gafodd ei godi, dyma achos teilwng iawn.

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn ffrainc iddi fynd i'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol yn Llundain i dderbyn, ar ran y Cyngor, y Wobr Aur ar gyfer cydnabyddiaeth o gefnogaeth y Cyngor tuag at y Lluoedd Arfog. Nododd mai Cyngor Rhondda Cynon Taf oedd yr unig Gyngor yng Nghymru i ennill gwobr mor fawreddog ar gyfer ei ymrwymiad tuag at gymuned y lluoedd arfog.

(3) Cododd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.Walker bryderon ynglŷn â chlustffonau cyfieithu ar y pryd sy'n cael eu defnyddio yn Siambr y Cyngor. Cafodd ei gynghori bod yr offer yn cael eu glanhau ar ôl pob cyfarfod.

(4) Tynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.E.Fear sylw at gyflawniad Mr. J Fish, Aelod Cyfetholedig ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc y Cyngor, a ddringodd Fynydd Kilimanjaro er budd Elusen Tenovus Cancer Care. Llongyfarchodd hi Mr Fish ar ei ymdrechion diweddar.

(5) Dymunodd Arweinydd y Cyngor lwyddiant i Lloyd Macey (trigolyn RhCT a mab Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey) ar raglen X Factor.

56

COFNODION

PENDERFYNWYD – cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017, yn amodol ar newid i Gofnod Rhif 47(a) a ddarllenir fel y canlyn:

'Gan edrych ar ganol trefi yn arbennig, rydyn ni eisoes wedi cael gwared ar ffioedd parcio mewn nifer o'n trefi. Er enghraifft, mae cael gwared ar ffioedd parcio yn Nhonypandy wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r dref. Rydyn ni wedi trafod ac ymgysylltu â masnachwyr er mwyn amlinellu'n cynigion i gynyddu nifer yr ymwelwyr a masnach yn Nhonypandy trwy wella blaenau'r siopau, yn ogystal ag adolygu pedestreiddio'r dref. Fyddwn ni ddim yn gorffwys nes byddwn ni'n ei gael yn iawn'.

a Chofnod 51 i nodi bod y Cynghorydd E.Stephens a'r Cynghorydd G.Davies wedi darparu argymhellion ysgrifenedig yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ar 31 Awst 2017. Rhoddon nhw ddiolch i'r grŵp am y gwaith wedi'i wneud.

57

CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

(a) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams)**

“Beth ydy'r materion mwyaf brys sy'n effeithio ar graffu a threfn lywodraethol y Cyngor yma?”

Ymateb gan y Cynghorydd Adams

Cyfeiriodd y Cynghorydd Adams at y gefnogaeth gadarnhaol wedi'i derbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynharach yn y flwyddyn mewn perthynas â threfniadau llywodraethol. Canmolwyd prosesau'r Cyngor, gan gynnwys gwelliannau diweddar i drefniadau cryfhau gwneud penderfyniadau a chraffu. Ychwanegodd i nifer o argymhellion gael eu gwneud mewn perthynas â chraffu ac ymgysylltu â'r cyhoedd sydd wrthi'n cael eu symud ymlaen gan swyddogion.

Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Jarman

Dyfynnodd y Cynghorydd Jarman Reol 1.c o Reolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu “..ystyried ac adrodd ar fecanweithiau i annog a gwella cyfranogiad y gymuned o ran datblygu opsiynau cynnal gwasanaeth”. Awgrymodd fecanwaith arall ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd drwy 'bwyllgor y ddeiseb', gan ddweud y byddai hyn yn fecanwaith ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd gyda chraffu o dan y Rheolau Gweithdrefn uchod. Gofynnodd i'r Cynghorydd Adams a fyddai'n defnyddio mecanwaith o'r fath yn y dyfodol?”

Ymateb gan y Cynghorydd Adams

Cynghorodd y Cynghorydd Adams nad oedd unrhyw drefniadau i weithredu hyn ond mae'n rhywbeth a allai gael ei ystyried. Bydd yn adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Jarman yn y dyfodol.

(b) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.Jones i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)

“Ydy hi'n bosib i'r Cyngor wella ffyrdd heb eu cofrestru neu'u mabwysiadu sydd mewn cyflwr gwael er mwyn sicrhau, diogelu a gwella mynediad y trigolion sy'n byw yn agos i'r ffordd?”

Ymateb gan y Cyngorydd A.Morgan

Cafodd yr Aelod ei chynghori bod gan y Cyngor bwerau i gynnal gwaith, yn lle dyletswydd. Rhoddodd y Cyngorydd Morgan enghreifftiau o waith sydd wedi'i wneud ledled y Fwrdeistref Sirol, lle cafodd ffyrdd heb eu mabwysiadu eu gwella i safon, gan esbonio i drigolion gyfrannu ar y cyd â'r Cyngor at ariannu'r gwaith.

Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd L.Jones

Cyfeiriodd y Cyngorydd Jones at ffordd 'Gas Lane', y mae eiddo'r Cyngor yn ei hwynebu, sydd nawr yn adfeiliedig. Nododd yr Aelod nifer y trigolion sy'n defnyddio'r ffordd i fynd i'r eglwys, cartref yr henoed a'r clinig lleol. Nododd hefyd y problemau mae'r trigolion yn eu hwynebu wrth fynd i'r cyfleusterau yma o ganlyniad i gyflwr y ffordd a chyfeiriodd at y trefniadau parcio gwael sydd hefyd wedi cyfrannu at y problemau. Gofynnodd yr Aelod a oedd hi'n bosibl cynnal gwaith ar y ffordd er mwyn codi ei safon gan nodi i rai o'r gwaith trwsio gael ei wneud gan y Cyngor y diwrnod cyn yr etholiadau.

Ymateb gan y Cyngorydd A.Morgan

Nododd yr Arweinydd pe byddai pob ffordd ledled y Fwrdeistref Sirol yn cael eu mabwysiadu, byddai hi'n costio'r Cyngor tua £20-30 miliwn. Cyfeiriodd eto at y pwerau dewisol sydd gan y Cyngor o dan Adran 230(7) o Ddeddf Priffyrdd 1980, sy'n nodi os yw ffordd heb ei mabwysiadu yn beryglus i'r cyhoedd, bydd modd cynnal gwaith trwsio brys. Rhoddodd wybod am y gost wedi'i gorfodi i drigolion ariannu'r gwaith, drwy nodi ei bod hi'n gaethgyfle i'r Fwrdeistref Sirol gan ystyried y gost enfawr o ran y maes yma.

(c) Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Chapman i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).

“A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad am bolisi'r Cyngor mewn perthynas â chlirio lonydd cefn ledled y Sir?”

Ymateb gan y Cyngorydd Morgan

Nododd yr Arweinydd nad oes gan y Cyngor bolisi penodol mewn perthynas â chlirio lonydd cefn a siaradodd am waith carfanau gwyrdd y Cyngor dros y blynyddoedd, a ymatebodd i ofynion, er iddo ychwanegu nad oes modd i'r Cyngor ymateb i bob ardal.

Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd Chapman

Cyfeiriodd y Cyngorydd Chapman at glirio lonydd cefn yng Nghwm Cynon a gofynnodd a oedd hyn fesul ward neu a oedd cynllun peilot ledled y Fwrdeistref Sirol?

Ymateb gan y Cyngorydd Morgan

Nododd yr Arweinydd nad menter Cwm Cynon yn unig oedd hyn a siaradodd am y gwaith roedd e wedi'i wneud yn ei ward, drwy wneud ceisiadau am arian

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor. cynlluniau grantiau 'Trefi Taclus'. Ychwanegodd i'r gwaith gael ei wneud ar sail adhoc a chafodd y gwaith mo'i drefnu, er iddyn nhw ganolbwyntio ar wardiau sydd â'r nifer fwyaf o broblemau. Cyngorodd y Cyngorydd Chapman i gyfeirio unrhyw faterion at swyddogion er mwyn iddyn nhw ystyried ymhellach.

(d) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H.Fychan i Arweinydd y Cyngor neu Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Morgan a D.R.Bevan)

"Gan fod caniatâd cynllunio wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ailddatblygu safle Dyffryn Taf, oes modd i'r Arweinydd/Aelod o'r Cabinet roi'r newyddion diweddaraf i ni o ran y camau nesaf a sut bydd trigolion Pontypridd yn ymgysylltu â'r broses?"

(**Noder** Cyn i Gyngorydd ateb y cwestiwn, cyngorodd Swyddog Materion Cyfreithiol y byddai'r Cyngorydd sydd â'r portffolio perthnasol yn ateb cwestiwn y Cyngorydd Fychan, sef y Cyngorydd Bevan, fel pwynt o drefn o dan Reol 9.2 Gweithdrefn y Cyngor.

Ymateb gan y Cyngorydd Bevan

Cyfeiriodd y Cyngorydd Bevan at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu ar 28 Medi 2017 mewn perthynas ag ailddatblygu Dyffryn Taf, a chynghorodd y Cyngorydd i gyfeirio at yr adroddiad manwl sydd ar gael ar-lein fydd yn ateb cwestiwn yr Aelod.

Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd H.Fychan

Cyfeiriodd y Cyngorydd Fychan at gyfweiliad yr Arweinydd yn y Pontypridd Observer ar 21 Medi 2017 mewn perthynas â'r ailddatblygiad a'r nifer botensial o ymwelwyr â Phontypridd sef 1000 person bob dydd. Cyfeiriodd yr Aelod at y problemau parcio sydd yng nghanol y dref a gofynnodd ynghylch y camau penodol a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem yma a sicrhad na fydd Parc Ynysangharad yn cael ei ystyried yn ddatrysiad i'r broblem.

Ymateb gan y Cyngorydd Bevan

Nododd y Cyngorydd Bevan y bydd llefydd parcio ychwanegol ar gael drwy'r ailddatblygiad, gan ychwanegu y bydd 1238 o lefydd parcio ar gael yng nghanol y dref. Bydd y rhan fwyaf ohonyn nhw'n llefydd 'arhosiad hir' fydd yn codi tâl llai. Bydd dim ond un maes parcio â llefydd arhosiad byr. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod am y datblygiadau o ran Cynllun y Metro a gwasanaethau bws, a'r gobaith y bydd y rhain yn lliniaru'r problemau a phryderon yr Aelod.

(e) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Rees i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins).

"Sut ydy'r Cyngor yn bwriadu cwrdd â disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?"

Ymateb gan y Cyngorydd G.Hopkins

Nododd yr Aelod o'r Cabinet i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gael ei thrafod ar sawl achlysur, a da yw hynny gan fod gwasanaethau cymdeithasol yn cynrychioli rhan sylweddol o'r cyfrifoldebau sydd gan y Cyngor tuag at drigolion Rhondda Cynon Taf. Cyfeiriodd at yr egwyddorion a gofynion deddfwriaethol cynhwysfawr sy'n trawsffurfio'r ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn sylweddol yng Nghymru.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a nododd y Cynghorydd Hopkins sut mae'r adroddiad yn cysylltu cynnal yr wybodaeth, cyngor a gwasanaethau â hybu llesiant yr unigolion mae'r Cyngor yn eu cefnogi.

Rhoddodd wybod am y pwyntiau cadarnhaol yn yr adroddiad cyfeiriol a bod cyflawniad Gwasanaethau Cymdeithasol yn RhCT yn parhau i wella. Nododd fod yna feysydd i'w gwella o hyd ac, o'i gymharu â chynghorau eraill, rydyn ni'n dal i gynorthwyo rhagor o oedolion mewn lleoliadau gofal yn hytrach nag yn eu cartrefi. Yn ogystal â hynny, mae nifer gymharol uchel o blant yn derbyn gofal gan y cyngor yn hytrach na byw â'u teuluoedd. Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'r ymateb i ben drwy ychwanegu mai gweithio gyda phartneriaid i gryfhau gwasanaethau cymorth sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn mynd i'r afael â'r materion yma yw blaenoriaeth allweddol y Cyngor.

Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd S.Rees

Gan ystyried amcanion y ddeddf oes modd manylu ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau gofal yn sgil poblogaeth gynyddol o hen bobl?

Ymateb gan y Cynghorydd Hopkins

Nododd y Cynghorydd Hopkins fod y prognosis ar gyfer anghenion gofal yn y dyfodol yn cael sylw sylweddol ac wedi bod yn bwnc llosg i'r genedl am nifer o flynyddoedd. Ychwanegodd ei bod hi'n angenrheidiol i'r Cyngor drawsffurfio i fod yn unol ag anghenion y boblogaeth fodern a chenedlaethau'r dyfodol a dyma'r amser i wneud hynny.

Parhaodd gan nodi'r bwriad i gynnal gwasanaethau sy'n fwy personol ac integredig ar draws Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sy'n hyrwyddo dewis, rheolaeth ac annibyniaeth, gyda rhagor o bobl yn cael eu cefnogi i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref sy'n darparu ymateb integredig gydag asiantaethau partner i leihau nifer y trigolion sy'n wynebu trosglwyddiad gohiriedig o ofal o'r ysbyty.

Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet gan nodi'r awydd i leihau'r galw am ofal sefydliadol a'r angen am ofal tymor hir yn y gymuned drwy gomisiynu ystod ehangach o opsiynau llety sy'n cefnogi annibyniaeth. Mae hyn yn ganolog i gynigion a anfonwyd gan y Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer cyn-graffu mewn perthynas â buddsoddi tua £50m mewn cyfleusterau gofal ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol yn y pedair / pum mlynedd nesaf.

Roedd sôn hefyd am ddatblygu a gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n fwy cywir i greu a chynnal dull unedig ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth.

Ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau'r trydydd sector i weithio mewn partneriaeth i gynnal hybiau cymunedol all gynnig gwybodaeth, cymorth a chynghor i bobl yn yr ardal; cysylltiadau â'r rhwydwaith ehangach o weithgareddau a chyfleusterau sy'n canolbwyntio ar y gymuned; cynnig datrysiadau sy'n seiliedig ar y gymuned i ddiwallu anghenion lefel isel o bobl sy'n byw yn yr ardal.

Daeth y Cynghorydd Hopkins â'i ymateb i ben gan nodi y hoffai'r Cyngor adeiladu ar lwyddiant Hwb Diogelu Aml-asiantaeth i sicrhau bod plant, pobl ifainc ac oedolion yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.2 y Cyngor, nododd y Maer y hoffai wahodd yr Arweinydd i gyfarch y Cyngor, wedyn byddai'n ymateb i sylwadau Aelodau ar ei Adroddiad Blynyddol.

Dechreuodd yr Arweinydd ei gyfarchiad drwy nodi mai dyma gyfle i ddangos rhai o'r pethau mae'r Cyngor wedi'u cyflawni dros y 12 mis diwethaf a'r ardaloedd hoffai eu symud yn eu blaenau i'w hystyried mewn perthynas â phrosiectau buddsoddi a thrawsffurfio. Nododd yr angen i sicrhau cynaladwyedd gan fod y Cyngor mewn mesurau caledi, gan gyfeirio at y setliad llywodraeth leol a'r arbedion mae rhaid i'r Cyngor eu cyflawni.

Priffyrdd – Dechreuodd yr Arweinydd gan gyfeirio Aelodau at y sefyllfa mewn perthynas â buddsoddi mewn priffyrdd ac isadeiledd. Gwnaeth sylw yng ngoleuni'r gwaith cynnal pwysig sydd wedi'i gwblhau ar y ffyrdd A a B ledled yr Awdurdod a'r ariannu sylweddol yn y maes yma yn unol â sylwadau maniffesto'r blaid Lafur. Cynghorodd yr Arweinydd fod gwariant cyfalaf, ers 2008, dair gwaith yn fwy na'r buddsoddi blynyddol ar ffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol.

O ran isadeiledd, mae meysydd allweddol wedi cael eu datblygu mewn perthynas â thrafnidiaeth a siaradodd yr Arweinydd am bwysigrwydd y gwaith parhaus sy'n rhan o Ffordd Gyswilt ar Draws y Cwm. Rhoddwyd gwybod i Aelodau am bwysigrwydd arian Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn drwy bartneriaethau sydd wedi helpu i gynnal prosiectau o'r fath. Tynnwyd sylw at gyfraniadau datblygwyr mewn perthynas â gwaith ar gylchfan Matalan oddi ar yr A4119. Siaradodd yr Arweinydd am y gwelliannau sylweddol o ganlyniad i'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r gwelliannau ehangach i lwybr cymudo strategol yr A4119. Parhaodd yr Arweinydd i roi gwybod am y buddsoddi sylweddol mewn perthynas â ffyrdd cerbydau a ffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda buddsoddiad o £500k mewn llwybrau troed. Nododd yr Arweinydd y byddai 862 o ffyrdd cerbydau wedi cael eu gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ers 2011/12 gan ychwanegu bod hyn yn cyfateb i 250 o filltiroedd.

Canol Trefi – Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod ffioedd parcio wedi'u gostwng ledled ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol yn ogystal â chyflwyno parcio am ddim ym meysydd parcio y Cyngor yn Aberpennar, Y Porth a Thonypandy. Cafodd Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ei nodi, yn ogystal â chynllun peilot Grant Cynnal Canol Trefi yn ardaloedd Aberpennar a Thonypandy. Cynghorodd yr Arweinydd i'r ddau gynllun gael eu cyflwyno yn dilyn ymgynghoriad â masnachwyr lleol. Rhoddodd yr Arweinydd fanylion i'r Aelodau am y cynllun peilot. Rhoddodd yr Arweinydd wybod am y buddsoddi potensial o ran Canol Tref Tonypandy, yn dilyn ymgynghoriad â thrigolion a masnachwyr lleol mewn perthynas â phedestreddio. Cynghorodd y byddai ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau yn fuan, gyda datblygiadau potensial yn dod i'r amlwg erbyn Ebrill 2018.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau am y datblygiadau o ran Wi-Fi a'r argaeledd yng nghanol trefi, adborth masnachwyr, ardaloedd llecyn Wi-Fi a'r problemau posibl os yw Wi-Fi ar gael 24/7. Ychwanegodd yr Arweinydd fod

angen datblygu rhagor o waith yn y maes yma.

Tynnodd yr Arweinydd sylw'r Aelodau at y datblygiadau gydag Ailddatblygu Dyffryn Taf gan yr Arweinydd. Rhoddwyd gwybod am ddefnydd yr adeiladau

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor.

gan gynnwys; trefniadau swyddfeydd ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, darparwr y South Wales Metro a chyrff eraill megis Network Rail a charfan y Cytundeb Dinas; llyfnydd i gwmnïau bwyd, CanolfaniBobUn, llyfrgell ganolog a chanolfan hamdden. Nododd yr Aelodau fanteision y cynllun ailddatblygu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol o ran cyfleoedd gwaith a chysylltiadau trafniadaeth.

Addysg a Chyflogaeth – Dechreuodd yr Arweinydd drwy gynghori nad oes cyngor arall sydd wedi buddsoddi mewn ysgolion gymaint â Chyngor RhCT gan nodi safon y cyfleusterau fydd ar gael i genedlaethau'r dyfodol. Parhaodd yr Arweinydd i gynghori bod y Cabinet wedi buddsoddi £170m drwy raglen Band A Ysgolion y 21ain Ganrif. Siaradodd am agoriad diweddar Ysgol Y Pant a'r sylwadau cadarnhaol wedi'u derbyn gan y disgyblion, athrawon, rhieni a Phrif Weinidog Cymru a fynychodd yr achlysur agor. Cynghorodd yr Arweinydd eu bod nhw'n bwriadu buddsoddi rhagor o arian ar gyfer Ysgolion Tonypany, Tonyrefail, Y Porth a Chwmaman yn y dyfodol. Bydd £160m ar gael ar gyfer band nesaf o fuddsoddi trwy raglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gynllun peilot Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim. Cynghorodd fod y cynllun yn cael ei beilotia ym mhedair ardal o'r Fwrdeistref Sirol a'r bwriad yw ei weithredu ledled Cymru yn y dyfodol. Roedd 112 o deuluoedd wedi cofrestru i fanteisio ar y cynllun.

O ran cyflogaeth, siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am y gwaith wedi'i wneud yn y maes yma a rhoddodd ddiolch i Adran Adnoddau Dynol y Cyngor am eu gwaith. Nododd yr Arweinydd lwyddiant y cynllun i raddedigion, cynllun gadael gofal a chynllun prentisiaethau a llwyddiant y Ffair Swyddi ddiweddar lle roedd dros 1000 o bobl yn bresennol.

Hamdden – Cynghorodd yr Arweinydd yr Aelodau fod y Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn Canolfannau Hamdden ledled y Fwrdeistref Sirol, gan nodi bod y Cabinet, unwaith eto, wedi gwrandao ar adborth defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi arwain at gynyddu nifer y defnyddwyr o 7,000 i 10,000. Nododd yr Arweinydd y manteision ar gyfer trigolion y Fwrdeistref Sirol mewn perthynas ag iechyd a lles. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at adroddiad diweddar i'r Cabinet o ran cyfleoedd i fuddsoddi rhagor o arian mewn canolfannau hamdden, a oedd yn y broses ymgynghori adeg cyfarfod y Cyngor. Mannau Chwarae – Daeth yr Arweinydd â'i ddatganiad i ben drwy nodi bod 80 o fannau chwarae wedi cael eu hadnewyddu drwy fuddsoddiad o £2.4m ac mae rhagor o fuddsoddi wedi'i drefnu ar gyfer manau chwarae ledled y Fwrdeistref Sirol.

Ymatebodd yr Arweinydd nifer o gwestiynau/sylwadau gan yr Aelodau fel:-

- Ymgysylltu â'r cyhoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol ;
- Argyfwng o ran tai a diffyg tai fforddiadwy nad yw'n cwrdd â thargedau presennol – cyfeiriodd yr Arweinydd at adroddiad y CDLI a'r goblygiadau o ran cost o ganlyniad i hyn a'r potensial o Gynlluniau Datblygu'r Ysgol ar sail ymgynghorol. Cynghorodd fod cyfarfodydd wedi cael eu trefnu gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt yma. Nododd fod y gwaith yn cael ei wneud o ran datblygiadau tir mae'r Cyngor yn perthyn arnyn nhw ac ychwanegodd ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau drwy gynllun cyflenwad tir 5 mlynedd;
- Buddsoddi mewn Ffyrdd a Gwaith Trwsio – rhoddodd yr Arweinydd wybod bydd gwaith yn cael ei wneud ar ôl y Nadolig i flaenoriaethu strydoedd a ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael;
- Rhyddhau Cleifion o'r ysbyty – nododd yr Arweinydd waith peilota sy'n cael ei wneud yn y maes yma gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a

Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Nododd y deilliannau cadarnhaol hyd yn hyn ond pwysleisiodd mai dyma fater i'r Gwasanaeth Iechyd hefyd. Rhoddwyd gwybod i Aelodau am y gweithio ar y cyd potensial ag Ysbyty'r Tywysog Siarl.

- Cynlluniau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer llwybr cymudo yr A4119 – Rhoddodd yr Arweinydd wybod am y cynlluniau ynghylch 'stinkpot hill', addasu goleuadau traffig, llwybrau bysiau a lonydd ac adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet mewn perthynas â chyfleoedd buddsoddi i fynd i'r afael â phryderon traffig.
- Offer o fewn ysgolion – Cynghorodd yr Arweinydd mai cyfrifoldeb yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu oedd yr offer o fewn ysgolion. Er iddo nodi bod yr holl ysgolion newydd wedi cael offer newydd oni bai bod yr ysgol wedi penderfynu nad oes rhaid.
- Canol Tref y Porth / Gwaith Adfywio Canol Trefi – Cynghorwyd yr Aelod y byddai cynlluniau peilot, sydd wrthi'n cael eu cyflawni, yn cael eu gweithredu ym mhob canol tref os yw'n llwyddiannus. Bachodd yr Arweinydd ar y cyfle i nodi'r achlysuron Nadolig fydd yn cael eu cynnal yn wyth prif ganol tref y Fwrdeistref Sirol.
- Buddsoddi mewn Ffyrdd y Mynydd gan gynnwys gwaith diweddar i Ffordd Mynydd y Maerdy yn dilyn tirlithriad – Cynghorodd yr Arweinydd fod £3.5m wedi cael ei fuddsoddi er mwyn gwella ffyrdd mynydd y Cyngor oedd yn hanfodol, yn enwedig dros gyfnod y Gaeaf gydag effeithiau ar wyneb y ffyrdd o ganlyniad i dywydd garw.
- Cefnogaeth ymarferol i fusnesau Canol Tref Tonypany – Rhoddodd yr Arweinydd wybod am waith y Swyddogion Adfywio a'r datblygiadau sydd wedi'u gweithredu.
- Diweddarau offer meysydd chwarae – Cynghorodd yr Arweinydd fod rhestr arfaethedig o feysydd chwarae ar gyfer buddsoddiad pellach dros y flwyddyn ariannol. Rhoddodd ddiolch i bartneriaid am gefnogi'r broses adnewyddu meysydd chwarae trwy ariannu.
- Problemau gyda chysylltiadau trafniadaeth o Ogledd y Fwrdeistref Sirol – Esboniodd yr Arweinydd fod y broblem wedi cael ei nodi ac ychwanegodd y byddai'r Metro yn chwarae rhan bwysig o ran lleihau problemau traffig. Siaradodd am rôl cwmni Arriva Trains mewn perthynas â darparu digon o gerbydau trên i sicrhau lle i deithwyr. Rhoddodd yr Arweinydd wybod am adroddiad Parcio a Theithio diweddar wedi'i drafod gan y Cabinet a'r buddsoddiad i liniaru tagfeydd ar y ffordd.
- Darpariaeth Gwasanaethau Bws – Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr angen i ail-reoleiddio pwerau mewn perthynas â gwasanaethau bws gan nad oes gan y Cyngor bŵer o ran gwasanaethau masnachol, gan wneud sylw am y costau potensial gyda galw is am wasanaethau bws.
- Parc Ynysangharad – Ail-bwysleisiodd yr Arweinydd ddatganiadau blaenorol nad oes gan y Cyngor fwriad i ddefnyddio Parc Ynysangharad fel maes parcio.
- Aflonyddwch Ieuenctid Canol Tref Pontypridd – Siaradodd yr Arweinydd am y gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud gyda'r trydydd sector i greu cyfleusterau ar gyfer pobl ifainc a nododd ddatblygiadau gyda'r YMCA. Ychwanegodd yr Arweinydd a oes achosion o aflonyddwch ieuenctid dilys, rhaid eu hatgyfeirio at y Swyddog Cyswllt Cymunedol / yr Heddlu.
- Parc Treherbert / Ailddatblygu – Cynghorodd yr Arweinydd mai safle Brownfield oedd hwn a does dim cynlluniau wedi'u cyflwyno gan y gymuned leol ar gyfer yr ardal yma. Ychwanegodd yr Arweinydd fod yr holl safleoedd tir gwag yn cael eu hadolygu.
- Buddsoddi mewn Priffyrdd – Nododd yr Arweinydd y gwaith rhagweithiol mewn perthynas â Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar i sicrhau datblygiad.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor.
Rhoddodd wybod am y buddsoddi a gwaith ar yr A4119 a chynllun Ffordd Osgoi Llanharan gan ychwanegu mai bwriad ariannu cynllun Ffordd Osgoi Llanharan oedd £4.5m o'r Awdurdod a £12m o ddatblygiad Ardoll Seilwaith Cymunedol.

59 **NEWID AELODAETH O AWDURDOD CYFUN GWASANAETH TÂN DE CYMRU**

Yn unol â Chofnod Rhif 2 (2.2) o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2017, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wybod i Aelodau ei fod wedi derbyn hysbysiad o'r Grŵp Llafur o newid i

aelodaeth yr Awdurdod Cyfun Gwasanaeth Tân De Cymru a **PHENDERFYNWYD** – y bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Stacey ar yr Awdurdod Cyfun Gwasanaeth Tân De Cymru.

60 **PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRYN WEDI'U GWEITHREDU**

Cyflwynodd Ysgrifennydd i'r Cabinet ei adroddiad at sylw Aelodau, gan gynghori ar y penderfyniadau gweithredol brys wedi'u gweithredu yn ystod y cyfnod Mawrth – Medi 2017. Yn amodol ar newid y camgymeriadau argraffyddol yn Adran 3.1 o'r adroddiad, (sef Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a) yn lle 17.2(b) i gael ei nodi) a'r rhifo olynol ym mharagraff 6, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad at ddibenion gwybodaeth.

61 **RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol

M.Griffiths, G.E.Hopkins, L.M.Adams, J.Bonetto, S.Bradwick, A.Morgan a M.Webber gan y Swyddog Priodol yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.1(b) y Cyngor:-

“Bod y Cyngor hwn yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Geidwadol y DU i ganslo trydanu'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe.

Byddai trydanu'r rheilffordd yma wedi creu mynediad i dechnoleg trenau yn Ne Cymru sy'n gyfartal â thechnoleg wedi'i chreu mewn rhannau o Dde Lloegr. Byddai hyn wedi caniatáu'r potensial am gynnydd yn nifer y trenau sy'n aros yng ngorsafoddd Llanharan a Phont-y-clun – rhywbeth mae ein cymunedau wedi gofyn amdano sawl gwaith.

Mae'r Cyngor yma yn cydnabod potensial economaidd ardaloedd o gwmpas Pont-y-clun a Llanharan; ac mae wedi ymrwymo i gefnogi'u datblygiad drwy fuddsoddi yng nghysylltiadau trafniadaeth well. Rydyn ni'n gresynu ar ôl-benderfyniad Llywodraeth y DU sy'n dangos pa mor ddi-bwys mae cymunedau De Cymru iddyn nhw.”

Yn dilyn trafodaeth ar y mater, **PENDERFYNWYD** – mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Noder:** Gofynnodd yr Aelodau o Blaid Lafur a Phlaid Cymru, oedd yn bresennol, nodi iddyn nhw bleidleisio o blaid y Cynnig).

62 RHYBUDD O GYNNIG

(Cyn trafod y Rhybudd o Gynnig nesaf, cynghorodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i enwau'r Cynghorwyr canlynol gael eu hepgor o'r Rhybudd o Gynnig ar agenda'r Cyngor. Ymddiheurodd wrth yr Aelodau dan sylw, sef Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Weaver a K. Morgan.

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G.Davies, H.Fychan, D.Grehan, S.Rees-Owen, E.Webster, D.Macey, J.Williams, A.Cox, S.Evans-Fear, A.Chapman, L.Jones, E.Stephens, W.Jones, J.Davies a J.Cullwick, M.Weaver a K.Morgan gan y Swyddog Priodol yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.1(b) y Cyngor :-

“Bod y Cyngor hwn yn cynnal gwerthusiad opsiynau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r opsiynau trafndiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi diogelu coridor o fuddiant i ddarparu estyniad ar gyfer ffordd liniaru Cwm Rhondda Fach, tra bod Llywodraeth Cymru wedi addo, o dan drefniant â Phlaid Cymru, i ystyried estyn y gwasanaeth Metro i'r gymuned honno. Dyma'r adeg i gadarnhau'r cynigion hyn ar ôl ymgynghori â chymunedau Cwm Rhondda Fach, yn enwedig y Maerdy a Glynrhedynog.”

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Maer, yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 y Cyngor bod y newid canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.Harries a S.Morgans:-

“Bydd y Cyngor hwn yn parhau i gynnal gwerthusiad opsiynau trafndiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach yn rhan o'r gwaith cynllunio trafndiaeth ranbarthol. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi diogelu coridor o fuddiant i ddarparu estyniad ar gyfer ffordd liniaru Cwm Rhondda Fach, tra bod Llywodraeth Cymru wedi addo, o dan drefniant â Phlaid Cymru, i archwilio estyn y gwasanaeth Metro i'r gymuned honno. Dyma'r adeg i gadarnhau'r cynigion hyn ar ôl ymgynghori â chymunedau Cwm Rhondda Fach, yn enwedig y Maerdy a Glynrhedynog.”

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu Metro De Cymru a gwelliannau trafndiaeth ehangach ar gyfer cymoedd y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr.”

Yn dilyn trafodaeth faith ar y mater hwn ac yn dilyn pleidlais o blaid addasu'r Rhybudd o Gynnig a ddaeth yn brif Gynnig, **PENDERFYNWYD** – mabwysiadu'r Addasiad i'r Rhybudd o Gynnig fel yr isod:-

Bydd y Cyngor hwn yn parhau i gynnal gwerthusiad opsiynau trafndiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach yn rhan o'r gwaith cynllunio trafndiaeth ranbarthol. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi diogelu coridor o fuddiant i ddarparu estyniad ar gyfer ffordd liniaru Cwm Rhondda Fach, tra bod Llywodraeth Cymru wedi addo, o dan drefniant â Phlaid Cymru, i archwilio estyn y gwasanaeth Metro i'r gymuned honno. Dyma'r adeg i gadarnhau'r cynigion hyn ar ôl ymgynghori â chymunedau Cwm Rhondda Fach, yn enwedig y Maerdy a Glynrhedynog.”

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu Metro De Cymru a gwelliannau trafniadaeth ehangach ar gyfer cymoedd y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr.

63 RHEOL GWEITHDREFN 8 Y CYNGOR (HYD Y CYFARFOD)

Hyd at bwynt yma y cyfarfod, **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol Gweithdrefn 8 y Cyngor er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

MATERION BRYD – ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN.

Hysbysodd y Maer yr Aelodau yng ngoleuni amgylchiadau arbennig, e.e. yr angen i roi gwybod i Aelodau am Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro, byddai adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod hwn yn unol â darpariaethau adran 100B4(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

64 CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2017/18 – Y SETLIAD DROS DRO

(Noder cyn trafodaeth ar yr eitem yma, datganodd y Cynghorydd P.Jarman y buddiant canlynol: 'Gan nad yw'r Pwyllgor Safonau wedi cwrdd i ganiatáu fy eithriad mewn perthynas â'r broses o osod cyllideb y Cyngor ac mae'r adroddiad at ddibenion gwybodaeth yn unig, byddaf i'n siarad am yr eitem ond fyddaf i ddim yn pleidleisio'.)

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Aelodau at ei adroddiad a chyflwyniad PowerPoint a oedd ganddyn nhw fanylion am oblygiadau'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2018/2019 i'r Cyngor. Cynghorwyd Aelodau bod y setliad dros dro a nodwyd ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn dangos gostyngiad o -0.2% sy'n uwch na'r cyfartaledd o -0.5%. Nododd fod ffigurau'r setliad ar draws y 22 awdurdod yng Nghymru yn amrywio o'r ffigur gorau +0.2% i'r ffigur gwaethaf -1.0%.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran wybod am asesiad rhagarweiniol o oblygiadau'r gwasanaeth yn dilyn cyhoeddi'r setliad dros dro. Esboniodd mai £3.834m fyddai cyfanswm y bwloch sy'n weddill yn y gyllideb ar ôl amcangyfrifon ariannol yng ngoleuni'r setliad gwell (gan ystyried yr arbedion ac ar ôl gweithredu'r targed effeithlonrwydd). Cynghorwyd byddai angen am ragor o gynigion i arbed arian er mwyn cau'r bwloch yn y gyllideb, a bod rhaid manteisio ar bob cyfle i gyflawni lefelau uwch o effeithlonrwydd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:-

1. Nodi'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2018/2019, wedi'i gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 10 Hydref 2017
2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod mis Rhagfyr 2017.

3. Nodi bydd y cyfnod ymgynghori strategaeth cyllideb cyffredinol yn dechrau yn ystod mis Tachwedd, bydd y Cabinet yn trafod manylion ar 26 Hydref 2017.

65 RHYBUDD O GYNNIG BRYD

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.5.1 y Cyngor, trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr A.Morgan, M.Webber, L.M.Adams, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A.Calvert, G. Caple, A.Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M.Forey, A.S.Fox, E.George, M.Griffiths, J. Harries, G.Holmes, G.Hopkins, G.Hughes, G.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, S.Morgans, M.A. Norris, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.Powell, S.Rees, (Mrs.)A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, W. Treeby, R.K.Turner, D.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo. Y rheswm dros y bryd oedd ar ôl cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol dros dro, dyma'r unig gyfle sydd gan y Cyngor i wneud y cynrychioliadau, gan y byddai'r Canghellor wedi cyhoeddi Datganiad yr Hydref erbyn dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor.

“Bod y Cyngor hwn yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i ddod â pholisi Llywodraeth San Steffan o gyni ariannol i ben yn ei Gyllideb, i'w gyflwyno ger bron Senedd San Steffan ar 22 Tachwedd.

Mae'r Cyngor hwn o'r farn, ar ôl saith mlynedd o gyni, mai 'digon yw digon' a does dim modd i'r sector cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig oddef y gostyngiadau sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn yn ei gyllid. Mae cyllid Cymru wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010, gyfwerth â swm syfrdanol o £1.2biliwn

Mae'n bryd i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus trwy ryddhau'r arian sydd ei angen i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau.

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno i:

- Ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf i gyfleu'r angen am ddod â'r cyni ariannol i ben.
- Parhau i fod yn agored am raddfa'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor byr a chanolig os na ddaw'r cyni i ben, a'r newid y gallai hyn ei achosi i'n cymunedau a gwasanaethau lleol.
- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddod â'r cyni i ben ac am ariannu teg i'r sector cyhoeddus ar draws y DU.”

Yn ystod y trafodaethau, gofynnodd yr Arweinydd gofnodi, o ran Treth y Cyngor, na fyddai'n rhagori ar 3% cynnydd yn nhref y Cyngor, fel yr ystyrir gan awdurdodau eraill. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(Noder: Gofynnodd yr Aelodau o Blaid Lafur a Phlaid Cymru, oedd yn bresennol, gofnodi iddyn nhw bleidleisio o blaid y Cynnig.)

66 **CYHOEDDIADAU**

Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen wybod i Aelodau am achlysur diweddar a fynychodd gyda thrigolyn lleol Kim Howells, a oedd wedi ennill Bafta Cymru yn ddiweddar. Holodd y Cynghorydd Rees-Owen a oedd modd anfon llythyr ati ar ran y Cyngor yn nodi cyflawniadau Ms. Howells. Cytunodd Aelodau.

**M.TEGG
MAER**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor.

The Revenue Budget 2018/19 – Provisional Settlement Update


Council Update
18th October 2017



Provisional Settlement Details

- Average reported decrease across Wales -0.5% (after transfers, but not new responsibilities) for 2018/19
- Reported decrease for Rhondda Cynon Taf -0.2%
- Floor protection at -1.0% (cost £1.8M from outside settlement)
- Various 'Transfers in' to settlement:
 - Waste element of the Single Revenue Grant, £35m
 - Welsh Independent Living Grant, £27m
 - Social Care Workforce Grant, £19m
 - Looked after Children, £7.4m
 - Carers' Respite, £3m
 - Social Care for Prisoners, 0.4m
- New responsibilities added – Homelessness (£6M)
- An indicative all Wales -1.5% for 2019/20
- Specific grant details to be confirmed (details due 24/10)
- Capital funding slight decrease of 0.16% in 2018/19

Provisional Settlement Details



Preliminary Assessment

- Settlement better than anticipated and modelled within the MTFP
 - Original assumption was -2%. Actual provisional means:
 - Additional RSG resource benefit +£6.142M
 - Change in base assumptions +£0.922M
- Initial budget gap reduced from £18.458M (July 2017 MTFP Update) to £11.394M
- After savings secured to date and efficiency targets applied, gap is **£3.834M**
- Ongoing work in respect of expenditure and income critical as budget strategy is developed

Development Of An Equitable Budget Strategy

- Key principles applied to maintain our focus on robust financial management
- Considerations will include:
 - Financial stability
 - Efficient and effective services
 - Appropriate funding for corporate commitments, schools and services
 - Protect key services and jobs wherever possible
 - Review all areas



Delivering the Corporate Plan – The Way Ahead

- Deliver services differently into the future and as a consequence, focus on:
 - Digitalisation
 - Commercialisation
 - Early Intervention and Prevention
 - Independence
 - Efficient and Effective Organisation

Consultation

- To start November and proposed to include:
 - The use of an online budget simulator
 - Town Centre roadshow events
 - A young persons consultation event
 - Consultation with OPAG
 - Use of Social Media to promote and capture feedback
 - Community Engagement
- Report due into Cabinet due shortly

Budget Timetable

- 10th October 2017 – Provisional settlement figures released by the Welsh Government
- 22nd November – Central Government Autumn statement
- December 2017– Final figures expected from the Welsh Government
- October to February – options for next year's budget to be considered, including consultation process to be undertaken
- Feb / March 2018 – Council sets budget and Council Tax levels for 2018/19